Annwyl Syr neu Fadam,

Sain Tathan – Cartref y Coleg Technegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod

Yn dilyn yr wythnos o arddangosfeydd cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2008, a ddenodd dros 300 o aelodau'r cyhoedd, ac yna'r Gweithdai a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2008 a Grwpiau Diddordeb yn Chwefror a Mawrth 2009, mae'n bleser gan dîm prosiect Sain Tathan gyhoeddi dyddiadau ar gyfer yr ail rownd o arddangosfeydd cyhoeddus ac estyn gwahoddiad cynnes i chi eu mynychu. Bydd y rhain yn digwydd ar:

- Dydd Mawrth 31ain Mawrth - 15.30-20.00 – Canolfan Gymunedol Sain Tathan, Glyndwr Avenue
- Dydd Mercher 1af Ebrill - 15.30-20.00 - Neuadd y Dref, Stryd yr Eglwys, Llanilltud Fawr
- Dydd Iau 2il Ebrill - 15.30-20.00 – Canolfan Hamdden y Bontfaen, The Broadshoard, Y Bontfaen
- Dydd Gwener 3ydd Ebrill - 15.30-19.30 – Neuadd Goffa a Theatr (yn Neuadd Bedwas),Y Barri

Rydym wedi ein calonogi'n fawr trwy gydol y broses ymgynghori gan lefel y gefnogaeth a'r sylwadau cadarnhaol sydd wedi eu gwneud gan y cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi'n llawn bod y Coleg Technegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod yn cynrychioli datblygiadau mawr i'r ardal ac yn deall bod nifer ohonoch yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r materion yr oedd angen i ni eu hystyried.

Bydd y rownd hon o arddangosfeydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i bawb ynghylch y prosiect, yn amlygu'r newidiadau allweddol sydd wedi eu gwneud i'r prif gynllun ers y rownd ddiwethaf o arddangosfeydd a dangos sut yr ydym wedi ystyried barn y cyhoedd a budd ddeiliaid eraill.

Trwy ddechrau ar y fath raglen gynhwysfawr o ymgynghori, rydym wedi gallu canfod yr hyn yr ydym yn credu yw'r prif faterion. Gan dderbyn nad yw wedi bod yn bosib gweithredu ar bob awgrym, rydym wedi ystyried pob sylw ac, mewn sawl achos, mae'r sylwadau hyn wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar sut mae'r prif gynllun wedi esblygu.

Er mai prif ffocws y rownd hon o arddangosfeydd yw derbyn adborth ac ymateb i nifer o gwestiynau nad oeddem mewn sefyllfa i'w hateb yn yr arddangosfeydd diwethaf, rydym yn dal yn awyddus i dderbyn barn bellach cyn cyflwyno ein cais am gynllunio i Gyngor Bro Morgannwg ym mis Mai.

Unwaith i ni gyflwyno ein cynllun, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn dechrau ar ei ymarfer ymgynghori ei hun, fydd yn rhoi cyfle pellach i sylwadau gael eu gwneud.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich gweld yn yr arddangosfeydd ac os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 0845 618 0016. Gallwch hefyd anfon e-bost atom ni at enquiries@st-athanconsultation.co.uk neu ysgrifennu atom at Rhadbost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (Sain Tathan), Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA

Yr eiddoch yn gywir,

Mike Grimmel
Rheolwr Prosiect
Metrix UK

Ed Bampton
Cyfarwyddwr Prosiect Sain Tathan
Llywodraeth Cynulliad Cymru